**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher, Medi 24ain 2014 am 7.30 yh yng Nghanolfan Pandy Tudur

Ymddiheuriadau: Ian W Griffith

Presennol: Elen H Edwards (Cadeirydd), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, R Emlyn Williams, Gwydion A Jones, Ifor G Edwards, Gwyn Williams a'r Clerc.

30.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad mewn eitem ar yr Agenda.

30.2 COFNODION – cynigwyd a chytunwyd bod cofnodion cyfarfod Medi 3ydd 2014 yn gofnod cywir a derbyniwyd gofnodion cyfarfodydd cyhoeddus Medi 9fed a'r 15fed.

30.3 MATERION YN CODI
30.3.1 WALIAU YNG NGHANOL PENTREF GWYTHERIN – mynegwyd pryder bod cerrig wedi disgyn i mewn i'r afon ger y maes parcio gerllaw y Lion Inn a bod llwybr cyhoeddus yr ochr arall i'r afon wedi ei arwyddo fel 'Taith y Pererinion'. Ofnid i'r cerrig gael eu cario i lawr mewn llif a thagu wrth y bont/fflat gerllaw. Hefyd roedd pryder bod coed ynn yn tyfu i'r wal ger yr hen efail ac yn cyrraedd at y gwifrau trydan. PENDERFYNWYD i ofyn i Gyngor B S Conwy os mai hwy oedd yn gyfrifol am y tiroedd dan sylw ac a fedrent edrych i'r mater rhag blaen oherwydd perygl iechyd a diogelwch.

30.4 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDDOL
30.4.1 LLWYBR HAFODUNOS - adroddodd y Clerc iddi gael gair â'r contractwr llwybrau Kevin Roberts a'i fod wedi cyfarfod swyddog o'r Adran Tramwy Cyhoeddus ar y safle. Er i Mr Roberts gyflwyno pris i'r Cyngor ni chafodd ateb a chredai bod rhywfaint o waith wedi ei wneud yno ond nid y gwaith llawn a brisiwyd. Cadarnhaodd y Clerc i'r Adran ddweud efallai y medrent hwy wneud y gwaith.
30.4.2 LLWYBR PONT FAEN Cafodd y Clerc air â swyddog o'r Adran am y giât fawr a'r weiar drydan ger y bont droed yn Tyn y Caeau. Gobeithir bydd rhwystrau wedi eu symud gan yr Adran Tramwy yn fuan.

30.5 MATERION CYNLLUNIO
30.5.1 CAIS CYNLLUNIO RHIF 0/40996 Gosod tŵr telegyfathrebu 15m gyda 6 erial a 2 loeren yn sownd i'r tŵr, hefyd 6 cabinet ar lefel daear o fewn y compownd gyda ffens o'i amgylch yn Pen y Fron, Gwytherin gan Mr Nick Allan, Harlequin Group. PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais.

30.5.2 Canllaw Cynllunio Adran Cadwraeth Sir Conwy – PENDERFYNWYD i anfon y wybodaeth i'r aelodau dros y wê .

30.6 CYFRANIADAU ARIANNOL – PENDERFYNWYD cyfrannu £30 i Ranbarth Conwy Urdd Gobaith Cymru.

30.7 RHEOLAU SEFYDLOG A RHEOLAU ARIANNOL Y CYNGOR – dewiswyd y Cadeirydd Elen Edwards, Gwyn Williams, Ann Vaughan, Diane Roberts, Ian Griffith a'r Clerc i fod ar is-

bwyllgor i gael golwg ar y rheolau newydd ac i'r Clerc gael un copi papur o'r ddwy ddogfen er hwylustod er bod y dogfennau i'w gweld ar ebost y Clerc.

30.8 DERBYNIAD RADIO CYMRU – derbyniwyd ateb gan Mr David Jones AS yn nodi, er iddo wneud llawer o ymholiadau, nad oedd yn debygol y byddai y BBC yn barod i wario ar offer darlledu radio newydd yn yr ardal, yn bennaf gan fod y nifer sy'n cael ei effeithio yn gymharol fychan a bod modd gwrando ar Radio Cymru drwy wahanol gyfryngau erbyn hyn. "Oherwydd datblygiadau newydd sydd ar y gweill mae'n debyg y bydd gwrando ar Radio Cymru a nifer o orsafoedd eraill yn dod yn gymharol hawdd yn y dyfodol agos, o leiaf mewn adeiladau". PENDERFYNWYD i gynnwys y diweddara yng Nghylchlythyr y Cyngor Cymuned.

30.9 SOS AMGYLCHEDDOL CARTREFI CONWY – PENDERFYNWYD pasio'r wybodaeth ymlaen i'r canolfannau cymunedol.

30.10 CYNGOR GWASANAETHAU GWIRFODDOL CONWY – derbyniwyd gwybodaeth am y Cyfarfod Blynyddol ar Hydref 16eg yn Ro-wen. Fe'u pasiwyd ymlaen i'r Cadeirydd.

30.11 CRONFA TREFTADAETH Y LOTERI – ei basio ymlaen i'r Gymdeithas Hanes.

30.12 SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU – derbyniwyd llythyr yn nodi bod cronfeydd wrth gefn y Swyddfa Archwilio hyd 31 Mawrth 2014 yn cael ei rannu rhwng y cynghorau tref a chymuned h.y. £30 yr un.

30.13 MATERION LLEOL
30.13.1 Blwch dal sachau tywod yn Llangernyw – adroddodd Ifor Edwards bod hyn ar y gweill.
30.13.2 To Hen Efail Llangernyw dal yn beryglus – angen cysylltu â'r Adran Cynllunio a pherchennog yr adeilad.
30.13.3 Tyfiant dwy ochr i'r ffordd ger Iard y Stag a Thafarn yr Hen Hydd – coed cyll yn tyfu.
30.13.4 Toiledau Llangernyw – cafwyd ebost gan Mr Steve Teale yn dweud bod y mater 'Trosglwyddo Toiledau Llangernyw' yn cael ei drafod mewn cyfarfod ar 16eg Hydref.
30.13.5 Oherwydd bod nifer o blant yn chwarae ar y ffordd ym Mhandy Tudur, ac nad oes palmant yno, angen gofyn i'r Adran Traffig osod arwydd ARAF – PLANT YN CHWARAE.

30.14 BILIAU

| | |
|---|---|
| Cyfieithu Cymunedol – cyfieithu mewn dau gyfarfod | £140.80 |
| D Evans (Pumed toriad mynwentydd a strimio Gwytherin) | £450.00 |
| Dŵr Cymru (Tap yn Mynwent Llangernyw Mawrth – Medi 2014) | £17.54 |

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 pm

*Cymeradwywyd y Cofnodion* ............................................ *Dyddiad* .............................